**Ymateb Ysgrifenedig i argymhellion y Pwyllgor Menter a Dysgu ynghylch "Cynllunio rheilffyrdd y dyfodol" gan Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Nodais yn fy ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar y ddeiseb i ailagor Gorsaf Reilffordd Carno y ceir ymrwymiad yn Cymru'n Un i wella gwasanaethau trên. Gwnes gadarnhau hyn yn fy natganiad llafar ar 2 Hydref 2007.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Network Rail, Gweithredwyr Trenau a'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol er mwyn cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un er budd pobl Cymru.

Croesawaf ddiddordeb y Pwyllgor yn y ddarpariaeth reilffordd ac rwyf wedi amlinellu isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad ar *Cynllunio rheilffyrdd y dyfodol:*

**Argymhelliad 1 – Rhagolygon galw**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod y twf mewn galw gan deithwyr yng Nghymru ac yn arbennig yn ardal Caerdydd tan 2014 a thu hwnt yn debygol o fynd y tu hwnt i'r lefelau a ddefnyddir gan yr Adran Cludiant yn ei Manyleb Allbwn Lefel Uchel a gallai fynd y tu hwnt i'r rhai a ddefnyddiwyd yn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru.*

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn cynllunio i ariannu'r isadeiledd sy'n ofynnol i ymdopi â'r twf ychwanegol hwn. Dylai'r Strategaeth Defnyddio Llwybrau i Gymru sy'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd nodi lle mae angen y gallu ychwanegol hwn fwyaf*.

**Ymateb:**

Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gysylltiedig â llunio'r ddau gynllun strategol ac mae'n ymwybodol o'r ffaith bod y modelau rhagweld a geir o fewn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru a'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel yn seiliedig ar wahanol amserlenni.

Dengys y ddau y bydd y cynnydd mwyaf o ran galw, o ran nifer absoliwt ac o ran canran, yn digwydd ar linellau'r cymoedd sy'n gwasanaethu ardal Caerdydd. Mae'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel yn rhagweld cynnydd o bedwar ar bymtheg y cant yn y galw yn ystod yr oriau brig yng Nghaerdydd rhwng 2007 a 2014. Y twf a ragwelir o ran nifer y teithwyr yn ystod yr oriau brig dros Gyfnod Rheoli 4 – 2008-09 i 2013-14 yw 15 y cant. Noda Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru y gallai'r twf uchel a ragwelir yn ardal Caerdydd gynyddu'r galw yn ystod yr oriau brig gymaint â 34% dros y 10 mlynedd nesaf, ac yn ychwanegol at hynny gallai'r galw gynyddu 1% bob blwyddyn.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynllunio ar gyfer y cynnydd, ar sail y rhagdybiaethau ynghylch y galw a geir yn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru, a chred y bydd y twf uchel a ragwelir yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru yn debygol o ddigwydd os bydd y ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw yn parhau'n berthnasol, yn unol â'r disgwyl. Mae'n fwriad gennym ddarparu nifer digonol o gerbydau er mwyn bodloni'r gofyn hwn a ragwelir erbyn 2014.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cadw golwg ar newidiadau mewn galw gan deithwyr bob blwyddyn, a bydd yn defnyddio technegau ar gyfer modelu'r gofyn er mwyn diweddaru'r rhagolygon a gynhwysir o fewn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru. Caiff diweddariad ei gyhoeddi yn Strategaeth Defnyddio Llwybrau Cymru a bydd y gwaith o ragweld yn parhau ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau y gall y capasiti a ddarperir ymateb i newidiadau yn neinameg y farchnad. Bydd cynnwys Strategaeth Defnyddio Llwybrau Network Rail, ar ôl iddi gael ei chwblhau, hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses fodelu.

O safbwynt ariannu'r ymyriadau i'r seilwaith y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt, mae'n bleser gennyf hysbysu'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Drafnidiaeth yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Llywio prosiect Network Rail ar gyfer Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd. Golyga hyn fod y Llywodraeth yn chwarae rhan ganolog yn y prosesau penderfynu sy'n gysylltiedig â chynllunio buddsoddiad Network Rail o £180 miliwn mewn moderneiddio'r signalau a'r traciau yn ardal Caerdydd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail wedi dod i gytundeb dangosol ar gyfrifoldebau cydariannu o safbwynt gwella capasiti a gallu'r holl seilwaith rhwng Cyffordd Ogleddol Heol y Frenhines Caerdydd a Chyffordd Cogan, drwy Orsaf Ganolog Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £20 miliwn gan yr Adran Drafnidiaeth a amlinellwyd yn y Papur Gwyn. Mae'r cytundeb buddsoddi yn amodol ar gynnal astudiaethau technegol a fydd yn cadarnhau'r ateb gorau o safbwynt peirianneg ar gyfer cyflawni'r capasiti sydd ei angen er mwyn bodloni rhagolygon Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru. Mae llawer iawn eisoes wedi'i gyflawni a byddaf yn sicrhau bod y gwaith yn parhau i fynd rhagddo yr un mor effeithiol yn y dyfodol. Mae gwella capasiti a gallu'r seilwaith yng Nghaerdydd yn flaenoriaeth uchel i'r diwydiant rheilffyrdd, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i gydweithio â rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd er mwyn darparu rheilffordd fodern ar gyfer pobl ac economi Cymru.

**Argymhelliad 2 – Gwella Heol y Frenhines Caerdydd**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu unrhyw gyllid ychwanegol i ategu at yr £20m sy'n cael ei ddarparu gan yr Adran Cludiant trwy'r HLOS er mwyn cael gwared ar y cyfyngiad allweddol rhwng Cyffordd Cogan a Chyffordd Ogleddol Heol y Frenhines, Caerdydd. Gallai hyn gynnwys ailadeiladu'r bont dros Heol Casnewydd os gwelir bod angen hyn, er mwyn darparu'r gwasanaethau gwell a gynlluniwyd gan SEWTA.*

**Ymateb:**

Eglurais ynghynt fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o Grŵp Llywio Adnewyddu Signalau Ardal Caerdydd, ac mae'n ymrwymedig i ganfod yr ateb gorau o safbwynt peirianneg er mwyn gwella capasiti a gallu'r rheilffordd rhwng Heol y Frenhines Caerdydd a Chyffordd Cogan. Ni wyddys beth yw'r ateb hwn mor belled. Mae'n bosibl y gallai olygu lledu'r rheilffordd dros y bont ffordd dros Newport Road fel y gall gynnwys o leiaf dri thrac. Mae opsiynau eraill wrthi'n cael eu pwyso a'u mesur. Mae'n ofynnol caniatáu i un ar bymtheg o drenau teithwyr deithio drwy Heol y Frenhines bob awr, pan fydd y galw yn cyfiawnhau darpariaeth ar y lefel hon, ynghyd â threnau cludo nwyddau sy'n defnyddio'r rhwydwaith ar adegau penodol.

Yn ystod gwrandawiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar 14 Tachwedd 2007, cadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn hyderus y bydd yn gallu ariannu'r gost gyfalaf sydd ynghlwm â gwella'r seilwaith sydd uwchlaw'r £20 miliwn a gyhoeddwyd gan Ruth Kelly, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, yn y Papur Gwyn.

**Argymhelliad 3 – Stoc Estynedig**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu cynllun stoc estynedig i Gymru, ochr yn ochr â'r cynllun i'w gyhoeddi gan yr Adran Cludiant, a fydd yn gosod allan yn fanwl sut y bydd stoc estynedig newydd neu a ailwampiwyd yn cael ei defnyddio i wella gallu a sut y bydd hyn yn cysylltu â chynlluniau Llywodraeth y DU.*

**Ymateb:**

Ceir ymrwymiad yn Cymru'n Un i drenau a gwasanaethau newydd ac mae Cyllideb 2008 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer £5.6 miliwn yn 2010-11 y gellid ei defnyddio ar gyfer caffael stoc estynedig ychwanegol. Yn ystod 2008 bydd Llywodraeth y Cynulliad yn pwyso a mesur y gwahanol opsiynau ar gyfer defnyddio stoc estynedig ychwanegol o fewn y cyllid sydd ar gael ar Fasnachfraint Trenau Cymru a'r Gororau. Bwriedir cyhoeddi cynllun defnyddio a fydd yn egluro sut y bwriedir defnyddio'r capasiti ychwanegol er mwyn bodloni'r gofyn.

**Argymhelliad 4 – Cludiad**

**Argymhelliad:**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mwy o flaenoriaeth a mwy o adnoddau i annog newid dulliau cludo o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd. Bydd angen rheoli hyn yn ofalus mewn partneriaeth â Network Rail a'r cwmnïau gweithredu trenau er mwyn atal gwrthdaro â thraffig teithwyr.*

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio'n agos gyda Network Rail er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael budd o ddatblygu'r Rhwydwaith Cludiad Strategol.*

**Ymateb:**

Mae proses ymgynghori wrthi'n mynd rhagddi ynghylch Strategaeth Cludo Nwyddau Cymru a'r bwriad yw hyrwyddo system cludo nwyddau sy'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy ar lefel amgylcheddol er mwyn rhoi hwb i'n heconomi sy'n tyfu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwrando ar sylwadau rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgynghori wrth iddi gwblhau'r Strategaeth yn derfynol. Serch hynny, mae'n amlwg fod cynyddu'r capasiti ar gyfer cludo nwyddau ar drenau yn opsiwn sy'n cael ei ystyried.

Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad weithio o fewn terfynau rheolau ynghylch Cymorth Gwladwriaethol wrth iddi geisio hyrwyddo newid o ran modd drwy ddarparu cymhorthdal neu drwy ddarparu cyfleusterau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig dau fath o grant cymeradwy sy'n defnyddio cymhorthdal er mwyn annog newid o ran modd. Y rhain yw:

- Grant Cyfleusterau Cludo Nwyddau (GCCN) – yn helpu â chost cyfalaf darparu cyfleusterau ymdrin â chludo nwyddau ar drenau (a thros y dŵr) fel cilffyrdd a chyfarpar llwytho. Bydd swm y grant yn dibynnu ar werth y milltiroedd amgylcheddol sensitif na fydd yn rhaid i lorïau eu teithio ar rwydwaith y ffyrdd

- Cynllun Caffael Budd Amgylcheddol y Rheilffyrdd (CCBARh) – yn helpu â chostau refeniw trosglwyddo cerbydau yn cludo cynwysyddion a nwyddau swmpus o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n agos â'r Adran Drafnidiaeth er mwyn hyrwyddo ceisiadau ar gyfer y grantiau hyn a'u hasesu, gan fod y rhan fwyaf o gynlluniau o natur drawsffiniol. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd y Llywodraeth yn parhau i hyrwyddo'r cynlluniau grant cymeradwy hyn sy'n defnyddio cymorth gwladwriaethol yn y dyfodol. Dyfarnwyd grant yn ddiweddar i gwmni sy'n cludo metel sgrap o Ganolbarth Lloegr i Ddociau'r Barri fel y gellir ei allforio oddi yno i Sbaen. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cydweithio'n agos â chwmni McAlpine Slate er mwyn datblygu cynllun agregau llechi Blaenau Ffestiniog, ac mae'n aros i glywed am y datblygiadau diweddaraf o ran y bwriad i werthu cwmni McAlpine Slate a goblygiadau hyn i'r dyfodol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'n llwyr fwriad Network Rail i ddatblygu Rhwydwaith Strategol ar gyfer Cerbydau Cludo Nwyddau fel rhan o'i Gynllun Busnes Strategol ar gyfer 2009-2014. Gofynnodd Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno sylwadau ar y cynigion a geir o fewn Cynllun Busnes Strategol Network Rail. Roedd ymateb

Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r bwriad i greu Rhwydwaith Strategol ar gyfer Cerbydau Cludo Nwyddau a phwysleisiodd yr angen i fuddsoddi yn llinell Dyffryn Conwy ac yn y llinell o Gasnewydd i Amwythig.

**Argymhelliad 5 – Gallu Consortia Cludiant Rhanbarthol**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru arolygu cyllid y consortia cludiant rhanbarthol yn sgil eu cyfrifoldebau ychwanegol.*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn neilltuo cyllid i'r pedwar Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â'r angen a'r gyllideb sydd ar gael. Mae gan Awdurdodau Unedol hefyd rôl o ran ariannu'r Consortia, ac mae cyfle iddynt bwyso a mesur cyllid masnachol oddi wrth ffynonellau allanol.

Bydd y Llywodraeth, mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor, yn parhau i ymwneud â'r Consortia er mwyn deall y pwysau y maent yn eu hwynebu o ran cyllid ac yn sgil y cynnydd a nodwyd yn eu cyfrifoldebau a thystiolaeth arall.

**Argymhelliad 6 – Pwyllgor Isadeiledd Rheilffyrdd a Gwasanaethau Gwell i Deithwyr**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell, unwaith i'r gwaith ar Astudiaeth Defnyddio Llwybrau Cymru ddod i ben yn 2008, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi rhaglen o'r gwelliannau i'r isadeiledd y mae'n bwriadu eu hariannu yn y deng mlynedd nesaf, gan ystyried y blaenoriaethau a nodwyd gan Bwyllgor Isadeiledd Rheilffyrdd a Gwasanaethau Gwell i Deithwyr yr Ail Gynulliad. Dylai'r rhaglen hon cynnwys amserlenni ar gyfer y gwelliannau hyn.*

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio gwneud y defnydd mwyaf o gyllid Ewrop ar gyfer gwella'r isadeiledd a darparu cyngor a chefnogaeth i eraill mewn perthynas â'r ffordd orau o ddefnyddio'r cyllid hwn.*

**Ymateb:**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi blaenraglen o brosiectau buddsoddi cyfalaf ar ôl i Astudiaeth Defnyddio Llwybrau Cymru Network Rail ar gyfer Cymru gael ei chwblhau. Bydd y flaenraglen yn seiliedig ar y dystiolaeth ynghylch y gofyn a geir o fewn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru a bydd yn rhoi sylw i waith ac argymhellion y *Pwyllgor Isadeiledd*

*Rheilffyrdd a Gwasanaethau Gwell i Deithwyr*. Bydd y rhaglen hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Consortia Trafnidiaeth ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi yn y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu dod â'r gwahanol ffrydiau gwaith hyn ynghyd a chyfuno'r blaenoriaethau mewn rhaglen sy'n cynnwys prosiectau fforddiadwy sy'n cynnig gwerth am arian.

Bydd y rhaglen Cydgyfeirio, sef rhaglen gyllid newydd o Ewrop, yn helpu i sicrhau seilwaith ar gyfer y wlad sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu economi fodern a chystadleuol. Mae dros 200 miliwn Ewro wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau trafnidiaeth cynaliadwy o dan y rhaglen hon, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y rheilffyrdd, a bydd Llywodraeth y Cynulliad a'r Consortia Trafnidiaeth yn ceisio sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael.

**Argymhelliad 7 – Meysydd Parcio**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Consortia Cludiant Rhanbarthol weithio gyda chwmnïau gweithredu trenau a Network Rail i wella darpariaeth barcio i deithwyr trenau.*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu lleoedd parcio ar gyfer defnyddwyr trenau ym mhob gorsaf newydd y mae wedi'i hariannu. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyfleusterau cyfnewid rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth/ meysydd parcio ar linell Bro Morgannwg a meysydd parcio a adeiladwyd yn benodol ymhob gorsaf ar hyd llinell Glyn Ebwy a'r orsaf newydd yn Llanharan. Mae cyfleuster parcio a theithio sylweddol wrthi'n cael ei chreu ar gyfer yr orsaf newydd yn Abercynon.

Yn y dyfodol bydd unrhyw orsafoedd newydd eraill yn cynnwys darpariaeth barcio. Bydd y Consortia Trafnidiaeth yn gyfrifol am ddwyn ymlaen gynigion ar gyfer y dyfodol o safbwynt parcio yn gysylltiedig â'r rheilffyrdd o dan eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo'r datblygiad o safleoedd parcio a theithio drwy'r canllaw arfer gorau "Dewisiadau Doethach: Cymru". Disgwylir yn ogystal i'r cynlluniau peilot ynghylch Trefi Teithio Cynaliadwy ddwyn ymlaen gynigion ar gyfer safleoedd parcio a theithio mewn gorsafoedd trenau.

**Argymhelliad 8 – Integreiddio trenau a bysiau**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r consortia Cludiant rhanbarthol hybu integreiddio gwasanaethau trenau a bysiau ledled Cymru trwy Strategaeth Cludiant Cymru a chynlluniau cludiant rhanbarthol.*

**Ymateb:**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu cyfleusterau cyfnewid rhwng dulliau trafnidiaeth o bob math mewn sawl gorsaf ar draws gogledd Cymru. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ar draws Cymru a bydd yn cydweithio â'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol er mwyn eu cyflawni.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu Bwrdd Cynghori newydd a strategol ar Reoli er mwyn mynd i'r afael â datblygu Rhwydwaith y TrawsCambria o wasanaethau bws. Bydd y Rhwydwaith yn darparu cysylltiadau i wasanaethau trên mewn cyfnewidfeydd allweddol yng nghefn gwlad Cymru. Yn ogystal, mae'r cynigion a geir yn y Mesur Trafnidiaeth Lleol drafft yn creu pecyn cytbwys o fesurau a fydd yn hyrwyddo gwaith partneriaeth mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau. Gobeithir y bydd hyn yn cyflawni gwasanaethau sy'n bodloni'n well anghenion teithwyr yn eu hardaloedd lleol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wrthi'n ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus a fydd yn rhoi llais gwirioneddol i deithwyr ac a fydd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth lleol yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch materion polisi allweddol fel tocynnau a gwasanaethau integredig.

**Argymhelliad 9 - Gorsafoedd**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Consortia Cludiant Rhanbarthol geisio sefydlu o leiaf un prosiect peilot i gynhyrchu cynlluniau teithio gorsafoedd yng Nghymru.*

**Ymateb:**

Ar 2 Hydref 2007, cyhoeddais flaenraglen ar gyfer gwneud trafnidiaeth yn agwedd allweddol ar y gwaith o roi *Cymru'n Un* ar waith.

Cyfeiriais yn fy nghyhoeddiad at y Fenter Trefi Teithio Cynaliadwy a gallaf gadarnhau y bydd o leiaf un o'r lleoliadau a ddewiswyd yn cymryd rhan mewn Cynllun Teithio peilot ar gyfer eu Gorsaf.

**Argymhelliad 10 – Gwerthuso cynlluniau**

**Argymhelliad:**

*Mae'r Pwyllgor yn cefnogi defnyddio dulliau gwerthuso sy'n rhoi ystyriaeth i fuddion cymdeithasol ac economaidd ehangach cynigion i fuddsoddi mewn cludiant ac mae'n gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru arolygu a yw Cyfarwyddyd Gwerthuso Cludiant Cymru'n rhoi digon o ystyriaeth i'r ffactorau hyn.*

**Ymateb:**

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd yr Arweiniad ar Gynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), ar ôl i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael ei chyhoeddi, yn darparu fframwaith teg ar gyfer asesu'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n deillio o brosiectau trafnidiaeth.

Mae nifer o ymarferion arfarnu wedi cael eu cynnal, ac awgryma'r adborth fod y fframwaith yn creu cyfle i gyflawni cydbwysedd a chysondeb o safbwynt arfarnu manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol.